

CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH, 8fed HYDREF 2024 **AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.**

1. **Presennol** - Dafydd Thomas (Cad) - Nebo, Justin Davies, Judith Humphreys, Dylan Herbert, Barry Bracegirdle, Ceri Owen - Penygroes, Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, Tesni Glyn - Llanllyfni, Gerallt Hughes - Nantlle, Siân Dafydd, Gareth Jones - Talysarn. Cyng. Peter Thomas

Ymddiheuriadau – Erfyl Williams – Penygroes, Harry Owen a Nigel Williams – Talysarn.

2. **Datgan buddiant** - pwynt 12 Ceisiadau cynllunio - Siân Dafydd

3. **Gwadd - Tim Heatley a Mark Billingham, Dorothea**. Croesawyd Tim a Mark i'r cyfarfod. Cyn cychwyn ar y drafodaeth tynnwyd sylw pawb at yr e-bost a oedd wedi ei yrru i Tim a Mark yn dilyn cwynion ynglŷn â'r problemau parcio ayyb sydd yn mynd ymlaen gyda Dorothea. Roeddynt wedi ymateb ac roedd pawb wedi cael cyfle i weld hwn cyn y cyfarfod heno. Rhoddwyd y sgwrs drosodd iddynt. Rhoddwyd diweddariad ar sefyllfa'r "Pump Hydro" ac ar bartneriaeth Dorothea gyda Phrifysgol Bangor yn defnyddio'r safle ar gyfer hanes ac archaeoleg. Teimlad oedd bod y materion parcio a gweithgareddau sy'n mynd ymlaen yn Dorothea yn bwysicach i'w trafod ac felly esboniwyd i'r cyngor cymuned eu bod mewn cytundeb gyda ActiveCymru i gario allan gweithgareddau yno ac mai Matt o ActiveCymru yw warden y safle ar hyn o bryd. Ynglŷn â'r maes parcio dywedwyd bod y cais cynllunio wedi ei wneud gan Gyngor Gwynedd i Gyngor Gwynedd a dim gan Dorothea ar ffordd ymlaen nawr ydi i geisio dod a'r cyflymder gyrru ym Mro Silyn i lawr i 30mya er mwyn medru caniatáu mynedfa i faes parcio Petris. Adroddodd Cyng. Peter Thomas ei fod o blaid dod a'r cyflymder i lawr i 30mya yma a hefyd bod nifer fawr o drigolion Bro Silyn yn teimlo'r un fath. Gofynnodd Tim a Mark a fuasai posib dod yn nôl i gyfarfod er mwyn iddynt fedru rhoi cyflwyniant llawn, efallai ar ffurf diwrnod agored? Hefyd, gofyn a oes posib i 2 neu 3 aelod o'r cyngor gyfarfod gyda nhw bod rhyw 3 mis ac yna adrodd yn nôl i'r cyngor llawn? Diolchwyd iddynt am fynychu'r cyfarfod a bu iddynt adael. Adroddodd Cyng. Peter Thomas y buasai yn dechrau ar y broses o geisio dod ar gyflymder gyrru lawr ym Mro Silyn.

4. **Cofnodion cyfarfod 10 Medi 2024** - cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

5. **Materion yn codi o'r cofnodion** - nid oedd materion yn codi ond adroddwyd bod Cyngor Gwynedd wedi bod allan yn atgyweirio'r cerb tu allan i siop y Co-op gan ei fod yn beryglus a'u bod wedi glanhau'r graffiti anwedus oddi ar y bin sbwriel yn Nhalysarn. Roedd y materion eraill a godwyd gyda Chyngor Gwynedd wedi eu hasesu ganddynt ac adroddwyd eu bod yn monitro'r sefyllfa oedd fel rhan o'u rhaglen archwilio diogelwch ac am weithredu fel ac os bydd angen.

6. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd pawb wedi derbyn adroddiad gan Cyng. Peter Thomas a diolchwyd iddo am ei pharatoi ac am ei waith. Aeth drwy'r adroddiad ac nid oedd dim yn codi. Soniwyd hefyd am "Brosiect Gwella Delwedd y Pentrefi" cynigwyd ein bod yn cymryd balchder yn y pentrefi ac efallai cysidro cael contractwyr i dorri gwair yn rhai rhannau. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda Chyngor Gwynedd am hyn ac i bawb feddwl am safleoedd erbyn y cyfarfod nesaf.

7. **Adroddiad cyfarfod is-bwyllgor a gynhaliwyd 2il Hydref - Prydles Tir Cwtin** - roedd drafft o brydles tir cwtin wedi ei dderbyn gan ein cyfreithwyr a cynhaliwyd is-bwyllgor i edrych drosti a nodi beth ddylai gael ei newid. Rhoddwyd y cynigion hyn o flaen y pwyllgor llawn heno a chynigwyd ac eiliwyd i ofyn i'r cyfreithwyr wneud y newidiadau hyn ar y brydles. Hefyd, angen gofyn iddynt barhau gyda chofrestru'r tir a bod angen cael serfiwr i wneud cynllun ar gyfer hyn ac ar gyfer y brydles. Roedd y clerc wedi derbyn pris am gyfieithu'r brydles a oedd yn £588 - cynigwyd ac eiliwyd i roi hysbys yn Lleu ac ar y wefan i gyfieithwyr roi pris ar y gwaith.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - _____ Dyddiad - _____

8. **Taflen ariannol a chyllid** - roedd pawb wedi derbyn copi o'r fantolen. Nid oedd llawer wedi mynd allan ac nid oedd dim mater yn codi. Diolchwyd i Gareth am ei waith gyda'r cyllid.

9. **Llwybrau a Mynwentydd** - y clerc wedi ymweld â mynwent Macpela a sylwi ar lanast ar y gwair fel bod anifail wedi bod yno yn tyrchu. Adroddwyd mai brain oedd wedi bod yno yn pigo. Cadw llygaid ar y sefyllfa a gweld os fydd yn gwella / gwaethygu a mynd ymlaen o hyn. Y biniau sbwriel wedi eu gosod yn y fynwent. Bydd y contract torri llwybrau a mynwentydd yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2025 felly amser meddwl edrych drwyddi a rhoi hysbys allan ar gyfer y tendr. Hefyd, teimlai rhai ei bod hefyd yn amser trafod rhoi estyniad ar fynwent Gorffwysfa. Trafodwyd a phenderfynwyd cynnal is-bwyllgor i drafod y materion hyn ar 22ain Hydref.

10. **Cytundeb gyda Chyngor Gwynedd ar gyfer celf Plas Silyn** - roedd pawb wedi derbyn copi o'r cytundeb ac wedi cael cyfle i godi unrhyw bwyntiau. Rhai o'r pwyntiau a godwyd oedd: a) Cynnal a chadw - adroddwyd na fydd costau gan fydd y darn celf yn dyddio yn naturiol ac na fydd angen ei beintio na dim. b) yswiriant - angen cael pris gan ein cwmni yswiriant â hyn. Trafodwyd a gofynnwyd i Justin basio'r cwestiynau hyn ymlaen a chael ymateb i'w e-bostio nôl i bawb gan fod angen ymateb yn fuan i hwn. Cytunwyd ar ôl derbyn yr ymatebion bod pawb i roi eu barn drwy e-bost i'r clerc ac yna mynd gyda'r mwyafrif. Diolchwyd i Justin am ei waith ar ran y Cyngor Cymuned gyda hyn.

11. **Materion Pentrefi - Penygroes** - y llwybr troed o Faes Y Môr i siop Co-op angen ei dorri a hefyd drain angen eu torri ar y grisiau sydd yn mynd oddi ar y llwybr hwn i'r briffordd. **Llanllyfni** - dau gar wedi parcio yn Felin Gerrig yn beryglus. Car yn parcio ar Ffordd Rhedyw rhwng Caban a Hafod yn beryglus a hefyd ceir yn parcio yn beryglus ar dop Ffordd Rhedyw. Angen cael yr heddlu allan i asesu'r broblem parcio hon. **Nebo** - y blwch ffôn yn beryglus ac angen ei atgyweirio. Adroddwyd bod y pwyllgor ardal am geisio am grantiau i wneud y gwaith ar y blwch. Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu i'r pwyllgor ardal wneud hyn ar yr amod bod y ceisiadau cynllunio ayyb yn eu lle yn iawn. Angen rhoi'r blwch ffôn ar ein hyswiriant ac ar ein rhestr asedau.

12. **Ceisiadau Cynllunio** - (bu i Siân Dafydd adael y cyfarfod yn ystod y pwynt hwn). Nid oedd dim gwrthwynebiad i unrhyw un o'r ceisiadau isod a oedd wedi eu derbyn.

- C24/0722/22/AC - 24-25 Treddafydd, Stryd Fawr, Penygroes - diwygio amod 2 ar ganiatâd cynllunio blaenorol er mwyn gosod ffenest afloyw ar lefel daear a diwygio lefelau llawr y tai.

- C24/0662/22/DT - 4 Pen Y Fron, Ffordd Rhiwlas, Talysarn - gosod pwmp gwres ffynhonnell aer llai na 3m o ffin yr eiddo.

- C24/0781/22/DT - Plas Madoc, 1 Ffordd Nantlle, Talysarn - bwriad dymchwel modurdy a storfa bresennol a rhoi estyniad unllawr to brig / lean to yn ei le.

- C24/0531/22DT - Y Wendon, Maes Y Môr, Penygroes - Estyniad llawr cyntaf er creu tŷ deulawr.

13. Gohebiaeth - roedd pawb wedi derbyn copiâu o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn yn ystod y mis. Nid oedd dim yn codi ohonynt.

14. **Materion ariannol** - cytunwyd i dalu'r canlynol:

- Ifan ac Idris - Torri gwair a llwybrau = **£7200** (cynnwys TAW)

- Nia Jones - Ffôn a rhyngwyd = **£25.00**

- Clwb Rygbi Caernarfon - Cyfraniad tuag at gyllido swyddog rygbi plant a phobl ifanc Dyffryn Nantlle = **£5000**

15. **Unrhyw fater arall** - cyfarfod gyda PCSO Katie Baddiley - adroddwyd bod y clerc a'r cadeirydd wedi cyfarfod gyda PCSO Baddiley er mwyn llenwi ffurflenni i mewn ynglŷn â'r difrod oedd wedi ei wneud i'r fainc tu allan i Neuadd Penygroes. Adroddwyd bod llythyr wedi ei dderbyn gan un o'r bobl ifanc oedd wedi gwneud y difrod yn ymddiheuro. Trafodwyd hefyd y sawl sydd yn malurio'r safle bws yn gyson - cynigwyd ac eiliwyd i ofyn a fuasai posib cael cyfarfod gyda'r bobl ifanc yma a'u rhieni i drafod yr oblygiadau o beth maent yn ei wneud. Y clerc i gysylltu gyda PCSO Baddiley i ofyn a buasai modd trefnu cyfarfod.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod a bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth, 12fed Tachwedd 2024 am 7.00 o'r gloch yng Nghanolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - _____ Dyddiad - _____